# YR ANGOR

**PAPUR CYMRY GLANNAU MERSI A MANCEINION**

*'ANGORWYD YN NIWYLLIANT EIN CENEDL'*

CYF. 38. RHIF 12 MAI 2017 50c


# YR HEN A'R NEWYDD YN LERPWL

Da gweld y dasg o adnewyddu 35 o dai yn strydoedd Cymraeg Toxteth wedi cychwyn. Roedd cyngor Lerpwl a chymdeithas tai yn y lle cyntaf eisiau cael gwared a 271 o gartrefi yn y Strydoedd Cymreig ac adeiladau 154 o dai newydd. Mae'r cyngor yn gobeithio yn awr y bydd cyfran sylweddol o'r 300 o dai yn medru cael eu hadnewyddu, gyda rhai tai yn cael ei huno gyda eraill i'w gwneud yn fwy a fydd yn apelio at deuluoedd y dosbarth canol.




*Y Welsh Streets*




*Y Dyfodol*

## YN Y RHIFYN HWN


Noson Ffilm Hedd Wyn.
Cofio David Hugh Morris a Clifford Evans. Newyddion Seion, Penbedw; Bethania, Bethel, Cymry Lerpwl, Cymry Manceinion.
Cronfa Arbennig.
Dathlu Gŵyl Ddewi ym Manceinion.
Cystadleuaeth


# Llongyferchir Cymdeithas Gymraeg Myfyrwyr Cymry Lerpwl

Gweler tudalen 5 i gael yr hanes yn llawn.



*Ymarfer Côr y Myfyrwyr*



*Myfyrwyr Prifysgolion Lerpwl yn barod i berfformio*

Golygyddol

# CYMHLETHDOD Y CYMOD

## gan D. Ben Rees

Rwy'n meddwl mae dim ond dau o arweinwyr y Cenhedloedd Unedig sydd hyd yn hyn wedi derbyn Gwobr Heddwch Nobel sef Dag Hammarksjold a Kofi Annan. Cyn i Kofi Annan gael ei apwyntio yn Ysgrifennydd Cyffredinol y Cenhedloedd Unedig ef oedd un o brif swyddogion yn Adran Mudiad Gwarchod Heddwch. Cymeriad annwyl a chadarn yw Kofi Annan a bellach wedi cilio o lwyfan y byd i fwynhau ymddeoliad. Ond yn ystod ei gyfnod gyda'r Cenhedloedd Unedig bu yn ddiplomat pwysig, yn gadarn ar un llaw, ac yn ddi-dramgwydd ar y llaw arall yn ei ymwneud ag arweinwyr y byd. Ei holl fryd oedd dwyn pobloedd a chenhedloedd i gymod ond ni lwyddodd am fod y cenhedloedd mawr yn gosod pob rhwystr yn ei erbyn ac yn gorfoleddu yn yr ymladd a'r rhyfela fel y gwna Rwsia yn Syria.

Un o heddychwyr Uruguay, Perez Aqueirene a ddiffiniodd cymod fel hyn:

> *Yr hyn yr wyf yn ei olygu wrth gymod yw torri cylch drygioni sy'n cynnwys dial a thalu drwg am ddrwg. Golygai cymod roi terfyn ar y 'rhesymoleg' ymddangosiadol hwn. Yn syml, yr hyn ydyw, yw'r gallu i fod yn feidrol, ac i faddau i'r gelyn. Y mae cymod yn fwy na chyfiawnder sy'n sicrhau cyfartaledd i'r ddwy ochr, y gallu i oresgyn gwewyr a dangos y medr bodau dynol wrthsefyll drygioni ydyw.*

Ond yr hyn a ddywed Perez Aqueirene mewn gwirionedd ydyw hyn, fod heddwch yn fater y mae'n rhaid i'r unigolyn weithio amdano. Dynion drwg sy'n creu uffern ar y ddaear, tra mae dynion da sydd yn gofalu fod yna eraill ohonom yn mwynhau nefoedd ar y ddaear. Gŵr gwirioneddol ddrwg oedd Khalid Masood o Birmingham pan yrrodd y car modur dros bont Westminster ar bnawn Mercher, 21 Mawrth 2017 a lladd pedwar o bob ddiniwed a gyrru ymlaen am San Steffan lle y llwyddodd i osod cyllell yng nghorff heddwas cyfeillgar oedd yn amddiffyn y Tŷ Cyffredin a'r Aelodau Seneddol, yr heddwas Keith Palmer. Bu Masood fyw am flynyddoedd yn mynnu niweidio a cwffio a thorri'r gyfraith ac fe'i carcharwyd o leiaf ddwywaith am ei weithredoedd creulon ac ysgeler.

Ac eto yn ei lecyndod pan yr adnabyddid ef fel Adrian Ajao yn Tunbridge Wells, plentyn o'r dosbarth canol ydoedd, ac yn fedrus ar gae chwarae ac yn boblogaidd ym mhlith ei gyd-ddisgyblion. Beth ddigwyddodd iddo? Ai'r carchar a'i caledodd neu ei ddroedigaeth i grefydd Islam? Ni allwn ateb hyd yn hyn, ac yn ôl yr heddlu nid oes ateb. Dywedir y dyddiau hyn fod modd radicaleiddio pobl sydd yn greulon i fod yn filwyr Isis ar ôl treulio cyfnod mewn carchar, a gwyddom fod cyfnod ar faes y gad yn Afghanistan neu Irac yn medru aflonyddu ar fechgyn cymedrol i fod yn ffiaidd a threisiol. Ac eto nid yw hynny yn golygu na ddylem anwybyddu y rhai a fu yn rhyfela. Nid ymladd er mwyn cael buddugoliaeth i ni fel Prydeinwyr ei ddathlu a wnaethpwyd. Yr oedd y rhai a frwydrodd yn y rhyfeloedd gwaedlyd oddiar 1914 yn gwybod yn ddigon da eu bod yn brwydro dros eu gwlad – Cymru a gweddill Prydain – dros eu teuluoedd; yn brwydro er mwyn cael heddwch fel y medrai eu plant fwynhau byd di-ryfel.

Bob bore yr ydym yn diolch am wasanaeth y lluoedd arfog, yn cofio Hedd Wyn a phob milwr arall na ddaeth adref i Drawsfynydd a Lerpwl a Manceinion a phob man arall o'r brwydro hyd angau, ac yn cydnabod er hyn i gyd na chawsom ein boddhau am fod y gwrthdaro a'r tywallt gwaed yn dal i ddigwydd dydd ar ôl dydd yn Syria, Yemen, De Sudan, Nigeria, Irac a strydoedd dinasoedd cyfandiroedd y byd.

Ychydig o ddaioni mewn bywyd sydd yn dod heb ymdrech bobl ddewr a daionus. Nid yw heddwch erioed wedi dod heb weithredu a heb fudiadau yn gweithio i greu amodau gwell. Mae yn fy ideoleg i esboniad pellach. Rhodd werthfawr yw bywyd pob un ohonom. Rhodd yw heddwch sydd yn dangos yn eglur ddigon y ffordd y medrwn adnewyddu y greadigaeth a'r ddynoliaeth, ein gwareiddiad a'n byw o ddydd i ddydd. Bu fy Ngwaredwr, Iesu o Nasareth, fyw a dioddef waradwydd a marw ar bren garw'r Groes er mwyn dod a heddwch i ni a phawb sydd yn dilyn ei lwybrau fel plant i Dduw. Ni welais yn umman fod arweinwyr pob crefydd yn debyg iddo yn hynny o beth. Nid rhyfelwr oedd yr Iesu ond tangnefeddwr. Plant i Dduw yw'r tangnfeddwyr o George M. Ll. Davies i Waldo Williams. Ni nodaf rhagor oherwydd gellir pentyrru enghreifftiau di-ri. Mae'r elfen ddwyfol yn dwyn heddwch i galonnau pobl sydd yn sychedu am gyfiawnder ac yn arwain ni i ddyheu am hynny ein hunain. Mae pob un ohonom sydd o fewn teulu Duw yn dyheu am i efengyl y cariad gofleidio yr anghenus ac yn ein hatgoffa mai braint aruthrol ydyw cael bod yn wneuthurwyr y cymod. Fe'n galwyd i fod yn dangnefeddwyr ond fe'n gyflyrir gan amgylchiadau, y wasg, a'n cyfoedion i fod yn rhyfelwyr. Dyna iaith pobl sydd heb ei argyhoeddi o gyfraniad cymod.

Fel Cristnogion fe dreuliwn lawer iawn o'n hamser yn trafod heddwch. Bu yn rhan ohonof ar hyd fy oes, mewn cynadleddau a phwyllgorau, a phrotestiadau a deisebu, llythyr a llunio cenadwrïau i'r Prif Weinidogion a'r Wladwriaeth drwm ei chlyw. Gwyddom am gymaint o wledydd lle nad oes gobaith am heddwch am ddegawdau fel y sefyllfa dorcalonnus yn Israel a Phalestina. Ac nid oes neb yn edifarhau yno ar y sgrin deledu, ond yn ei bywydau personol clywn oddiwrthynt yn reit aml ei bod wedi hen syrffedu ar ddicter a thrais.

Mae Heddwch yn golygu cymaint o newid i'r ddynolryw, mae'n ofynnol i gael urddas o fewn cymunedau, hawliau dynol, ie cyfiawnder o fewn llysoedd a rhyddid i fynegi barn, i addoli, a gwrthwynebu drygioni fel bo'r galw.


Hyd yn hyn, nid yw pawb o'n hamgylch yn byw mewn cymod â'i gilydd, ac yn sicr nid gyda'i Duw. Mae gyda ni wareiddiad ond y mae methu a dod a'r ffrwyth pennaf i'n cymunedau. Gall pob un ohonom ddyheu a dyfynnu o ddydd i ddydd frawddegau o eiddo Henry Richard, Gandhi, Nelson Mandela. Dywedodd un heddychwr: *"The peace sown by peaemakers brings a harvest of justice."* A yw hynny'n wir? Mae cymaint yn dioddef, yn sâl a neb â diddordeb (hyd yn oed y Gwasanaeth Iechyd yn cwyno am adnoddau) eraill heb gartref, y rhai a gam-drinir, ac sydd yn byw mewn ofn nos a dydd. Y mae gennym ddigon i'w ddweud fel y Golygyddol hwn, a lluniwyd llu o gerddi, ac o emynau, a homiliau sydd ar yr un trywydd. Gweddïwn gyda'r diweddar Barchedig D. E. Williams, Abertawe (Pontyberem gynt):

*'Tywys ni i ffordd tangnefedd*
*fel y delo'r teulu'r un;*
*doed dy gariad*
*i gymodi gwledydd byd'.*

Dyna'n dyhead ond ofnaf fod cymhlethdodau di-ri ar ffordd y Cymod yn ein canrif ni.

*Ysgrif Coffa*

# DAVID HUGH MORRIS (1938-2017), Kirby a Bodelwyddan



Gwerinwr diwylliedig oedd David H. Morris o Ddyffryn Clwyd ond a ymserchodd fel cymaint o Gymry eraill yn ninas Lerpwl a'i phobl. Ganwyd ef yn Arfryn, Rhuallt, i Hugh a Mary Morris a hynny ar 5 Ionawr 1938. Mynychodd yr Ysgol leol a Ysgol Ramadeg Llanelwy, a gadael ysgol i fod yn brentis o drydanwr. Yn ei flynyddoedd cynnar yr oedd yn bêl-droediwr o fri, a bu'n aelod o dîm plant ysgol Sir y Fflint, dipyn o gamp. Hoffai ei fodur a'i fywyd a'i ymlyniad wrth enwad Eglwys Bresbyteraidd Cymru. Deuai o deulu o flaenoriaid – ei dad yng nghapel Rhuallt, ewythr arall yng nghapel Tremeirchion, a'r trydydd brawd yng nghapel Hamersmith, Llundain. Edrychai ymlaen i dreulio ei wyliau gyda'i deulu yn Llundain. Bu ef ar hyd ei oes yn gapelwr, yng nghapel Rhuallt, yna yng nghapel Waengoleugoed, ac yn olaf yng nghapel Bethel, Heathfield Road.

Ar ôl priodi a Gloria fe aeth y ddau o 1973 i 1977 am bron bum mlynedd i Awstralia gan ymweld â Seland Newydd, Unol Daleithiau a Canada. Darllenodd fy hunangofiant, *Di-ben-draw* (2015) a'r rhan oedd yn gyfareddol iddo ef oedd fy nheithiau a'r pererindodau. Teimlai eiddigedd fy mod wedi gweld cymaint o wledydd!

Bu yn ofalus o'i fam, ac yn gofalu mynd â hi blwyddyn ar ôl blwyddyn i'r Alban. Ei hoff fan yn y wlad brydferth honno oedd Oban. Yr oedd yn meddwl y byd hefyd o'i frawd Ellis a'i briod Anne, a'r bechgyn Stephen a Andrew sydd yn byw yn Llanelwy.

Yr oedd ganddo deulu yn Lerpwl a thrwy y cysylltiadau hynny y daeth i adnabod Pauline a fu yn ffrind ac yn bartner iddo am ddeugain mlynedd. Ar ôl ymddeol o weithio fel trydanwr yn Ffatri Laeth Llandyrnog medrai dreulio mwy o amser yn Lerpwl. Roedd ganddo dŷ ym mhentref Bodelwyddan a chartrefai yn Kirby. Ar un o ymweliadau â Chapel Waengoleugoed y deuthum i'w gyfarfod, a'i wahodd i ymuno â ni yng nghapel Heathfield Road, ac fe ddaeth yn gyson, ac yn y diwedd pwysais arno i ddod yn aelod. Yr oedd tynerwch ac addfwynder yn ei bersonoliaeth a byddai wrth ei fodd yn helpu eraill. Llawer tro byddai'n hebrwng teuluoedd o fro ei febyd a'r cyffiniau i ddod i ddinas Lerpwl i'r Ysbytai gan fod y traffig yn fwgan iddynt. Dyn yr ail filltir oedd Dei Morris. Yn Bethel daeth yn gryn ffrindiau â'r Athro David Alan Price Evans, a phan fu'n rhaid i'r gŵr athrylithgar hwnnw fynd i Gartref Gofal, galwodd D. H. Morris arno fwy nag unwaith yn Woolton. Roedd ganddo gryn bellter i ddod i Bethel, ond fe ddeuai o Kirby, ac yn reit aml gyda wyres Pauline, sef Jasmin. Byddai yn gofalu fod Pauline ac yntau yn bresennol yn ein dathliadau Gŵyl Ddewi.

Dyn gostyngedig o galon, parchus ohonoch, caredig ei ysbryd, ac yn barod i gario baich. Fel y dywedodd ei bartner bu yn gymorth iddi wynebu ar brofiadau mawr y daith, colli mab ar drothwy canol oed, a'i hiechyd hithau yn fregus. Teyrnged iddo oedd gweld cymaint o'r teulu o dref Kirby, Lerpwl a Manceinion yn yr arwyl. Bu'n ddyn iach ar hyd ei oes, cafodd sumptomau yr afiechyd a'i llethodd ryw bymtheg mlynedd yn ôl, ond daeth drosto, ond cyn Nadolig cawsom ein syfrdanu ei fod yn gorfod gwynebu ar ysbyty. Daeth adref, ond o fewn ychydig amser yr oedd yn gorfod derbyn gofal hosbis Woodland o fewn campws Ysbyty Aintree.

Derbyniodd ofal nodedig. Cefais y fraint o weinnyddu y Sacrament o Swper yr Arglwydd iddo. Holodd fi yn fanwl gan ei fod yn cyfaddef nad oedd yn gwella, am y daith anorfod i'r byd tu hwnt i'r bedd. Ceisiais ateb yn onest ond yn niwedd y sgwrs cydnabod fod y daith honno yn ddirgelwch i gyd. Fel nad ydym yn cofio ein geni o groth ein mamau, ni fyddwn yn wahanol i hynny ar ddechrau y bererindod o'r pererindodau. Gadawodd ni yn dawel ar ddydd olaf Chwefror a bu'r gwasanaeth, o dan fy ngofal yng nghapel Waengoleugoed lle y croesawyd ni yn gynnes gan yr Athro Mari Lloyd Williams a fu yn ymwelydd cyson ag ef, fel Dr. John G. Williams o gapel Bethel. Llanwyd Capel y Waen ar ddydd Mercher, 5 Mawrth a thalodd Andrew Morris deyrnged a minnau, darn o farddoniaeth o eiddo Jasmin yn cael ei ddarllen gan berthynas iddi, ac oddi yno i Eglwys Corff Crist a'r fynwent yn Nhremeirchion lle gorwedd ei anwyliaid a'i gyfoeswyr. Mangre delfrydol, a chynrychiolwyd Eglwys Bethel gan y blaenor W. Meirion Evans. Cafodd ei ddymuniad. Gwasanaeth dwyieithog, Cymreig a ninnau yn canu *'O fryniau Caersalem ceir gweled'* ar lan y bedd a haul y gwanwyn yn taflu ei wres llethol arnom. Yr oedd y nefoedd yn agos i ni oll.

*D. Ben Rees*

## CYSTADLEUAETH SCRABL

(Gweler *Angor* Mawrth 2017, t. 11).
Dyddiau cau: Nos Lun, Mawrth 27 - (estynwyd y dyddiad cau gan na chafwyd ateb hyd yn hyn).

**GWOBR: UGAIN PUNT (£20).**

***Ni chafwyd un ymgais.***
***Mae'n amlwg nad oes neb o'r Cymry yn ymhyfrydu mewn scrabl***

## CORNEL Y TRYSORYDD

### MAI 2017



| | |
|---|---|
| Mrs Doris Thomas, Llangefni | £25.00 |
| Mrs Mair Nadolig Jones, Y Bala | £5.00 |
| Di-enw, Lerpwl | £40.00 |
| Er cof am Walter Rees Jones, Penbedw | £25.00 |
| Rhodd Cymdeithas Gymraeg Penbedw | £100.00 |
| **Cyfanswm** | **£195.00** |

**Roderick Owen (Trysorydd)**

*Newyddion o*

# LANNAU MERSI A MANCEINION

## Eglwys Seion, Laird Street, Penbedw

Mae Liz chwaer hynaf ein organydd Mr. Goronwy Humphreys, Wallasey yn bur wael yn ei chartref yn Nottingham. Roedd Liz yn un o blant Capel Rake Lane. Anfonwn ein cofion ati hi a hefyd at Mrs Dilys Askew. Mae Dilys yn awr o dan ofal meddygon yn Ysbyty Arrowe Park ar ôl cael damwain tra yn galw i weld ffrind iddi.

Pnawn Sul, 26 Mawrth daeth Golygydd Blwyddlyfr yr Henaduriaeth Mrs Shian Morris, Llanelwy i'n gwasanaethu. Cawsom oedfa fendithiol o dan ei harweiniad. Braf oedd medru diolch iddi am olygu y Blwyddlyfr 2016. Nid gwaith hawdd. Anfonwn ein cofion at aelodau sydd yn methu cyd-addoli â ni a chofiwn amdanynt yn ein gweddïau.

## Eglwys Bethania, Crosby Road South, Waterloo

Croesawyd Mrs Siân Morris o Llanelwy i gymryd yr oedfa ar y Sul olaf o Fawrth a daeth a'r Blwyddlyfr yr Henaduriaeth gyda hi. Ar ddiwedd yr oedfa cafwyd y Cyfarfod Blynyddol a derbyn yr adroddiadau a thrafod ein dyfodol. Teimlwn fod hi'n fraint tystio yng Ngogledd Lerpwl a gwahoddwyd ein Gweinidog i drefnu Suliau am 2018. Rhydd ef fel y gwyddom mwy na'r disgwyl o oedfaon i ni a theimlid y gallwn alw hefyd ar cyfeillion o blith yr Anglicaniaid i'n cynorthwyo yn ôl y galw. Sylweddolwn yn y Blwyddiadur bod yna ddisgwyl arnom i drefnu Seiat Ymweliad cyn diwedd 2017 a bwriadwn ystyried hyn yn y dyfodol agos. Anfonwn ein cofion at bawb o'n anwyliaid, a diolchwn i'n swyddogion am yr arweiniad o oedfa i oedfa.



*Parti Edern*

## Cymdeithas Cymry Birkenhead

Cawsom ginio Gŵyl Ddewi hyfryd o dan lywyddiaeth Mrs Mair Rees Jones yng ngwesty Grove House Wallasey ar nos Wener Mawrth 3ydd. Daeth bron i hanner cant ohonom ynghyd i ddathlu dydd ein nawddsant, i sgwrsio gyda chyfeillion, cael bwyd tymhorol a mwynhau adloniant difyr. Traddodwyd y fendith gan y Barch Glenys Wilkinson, gwnaed y trefniadau gan Iola a Phyllis, a Iola oedd yn gyfrifol am y fwydlen unigryw a chelfydd.

Daeth parti "Edern" o Fodedern i'n swyno gyda'i caneuon hen a newydd, unawadau ar y delyn, a chanu cerdd dant. Tair o ferched ifanc talentog yw'r parti, dwy chwaer Elain a Glesni a chyfaill, Annest gyda mam y ddwy chwaer, Mrs Ann Peters Jones yn cyfeilio a hyfforddi. Maent fel parti ac fel unigolion wedi ennill gwobrau yn Eisteddfod yr Urdd ac yn lleol, wedi cynhyrchu cryno ddisg llwyddianus iawn ac wedi ymddangos ar Noson Lawen S4C. Rhwng y caneuon cawsom straeon doniol gan dad y ddwy chwaer. Dymunwn pob llwyddiant i'r dair talentog a dymunol yn eu haddysg bellach. Diolchodd Mrs Eirwen Sargent i bawb am noson arbennig o bleserus a llwyddiannus unwaith eto.

Ar y nos Sul canlynol, cynhaliwyd ein gwasanaeth arbennig i cofio Dewi, y sant, pregethwr ac efengylydd. Mae bob amser yn bleser cael rhannu ein cyfarfod gyda chyfeillion Lerpwl, a heno Mrs Nan Hughes Parry oedd ein gwestai. Ganddi hi clywsom sylwadau a myfyrdod ar fywyd a gwaith Dewi, drwy lenyddiaeth Cymru drwy'r oesoedd. Roedd prawf o wybodaeth eang o lenyddiaeth a barddoniaeth ein gwlad i weld yn ei dewisiad o ddarlleniadau. O'r cyfarwydd fel yng ngwaith T. H. Parry Williams, i'r newydd yng ngwaith prifeirdd cynnar hyd at awduron cyfoes clywsom deyrngedau

### *Gair Byr i'r Darllenwyr, Cyfranwyr, Dosbarthwyr a Theulu'r Angor*

- **Tanysgrifiadau/Rhoddion** - Llawer o ddiolch am haelioni i'r papur bro hwn, papur unigryw iawn yn hanes Newyddiaduriaeth Cymraeg 2017. Daliwch i'w gynnal trwy anfon at ein Trysorydd, Roderick Owen, Maeshir, 21 Drennan Road, Allerton, Lerpwl/ Liverpool L19 4UA, a chaiff eich cyfraniad ei gydnabod yng Nghornel y Trysorydd yn rhifyn nesaf *Yr Angor.*

- ***Pris Yr Angor*** yw £11.00 trwy'r post bob mis o Mehefin ymlaen. Anfoner eich siec i Bwyllgor *Yr Angor*. Hysbyseb – £60 y tudalen; £30 hanner tudalen.

- **RHIFYNNAU NESAF YR ANGOR**

**i) Rhifyn Mehefin 2017 –** erbyn bore Mawrth, 2 Mai, 2017, – neu ar y we i benatgarthdrive@talktalk.net

**ii) Rhifyn Gorffennaf 2017** erbyn bore Iau, 1 Mehefin, 2017 – lluniau, adroddiadau, llythyron, etc.

**iii) Rhifyn Awst/Medi 2017 –** erbyn bore Sadwrn, 1 Gorffennaf i 32 Garth Drive, Allerton, Lerpwl L18 6HW er mwyn ei bostio i Llanuwchllyn am 11.00 o'r gloch y bore hwnnw.

- **Cofier y wefan –** Liverpool-welsh.co.uk (ewch yno bob mis) a Cymry-Lerpwl.co.uk

eang a diffuant i'n sant a'n gwlad.

Hawdd oedd inni uniaethu a chydymdeimlo a'r cariad at wlad ac at Dduw a fynegwyd yn newisiad meddylgar ac addas, Mrs Hughes Parry. Llywydd y noson oedd y Barch Glenys Wilkinson a Terry O'Neil oedd wrth yr organ, a gwanaed casgliad at Gapel Seion, Laird Street, ein cartref fel cymdeithas.

Yn ystod yr wythnos clywsom newydd trist am farwolaeth frawychus o sydyn, Mrs Wendy Vaughan. Estynnwn ein cydymdeimlad â Megan, ei mam yng nghyfraith a'r teulu oll yn eu colled.

"Hanes Glynllifon" oedd darlith J. Dilwyn Williams ar nos Lun Mawrth 27, pan ddaeth atom o Benygroes. Brodor o ardal Pwllheli yw J.W. fel y gelwir ef gan gyfeillion; yn athro, archifydd a hanesydd - yn arbenigo mewn hanes stadau a pherchogaeth tir. Addysgwyd ef ym Mwllheli a Bangor lle graddiodd yn y Gymraeg ac yna ennill cymhwyster fel Archifydd. Mae ei wybodaeth helaeth a'i hoffder o'r hen stadau yn amlwg yn ei sgwrs ddiddorol a gafaelgar. Gyda darluniau, hen ddogfennau a mapiau arweiniodd ni o ddyddiau cynnar y plasdy ger Caernarfon yn y nawfed ganrif, hyd at olygon gobeithiol am y blynyddoedd nesaf.

Yn nyddiau cynnar y plas roedd awyrgylch hollol Gymreig yno gyda teuluoedd yn noddi beirdd a chantorion teithiol i'r plasdy cerrig yn 1618. Codwyd yr adeilad sylweddol o frics coch gan Syr John Wyn yn 1749 a thrwy briodasau ffafriol enillwyd mwy a mwy o dir a stadau, gan gynnwys rhannau helaeth o Lŷn, ac ynys Enlli.

Drwy'r blynyddoedd canlynol roedd ffyniant yn hanes y teulu, a'r plas, gyda llawer o ymwelwyr blaenllaw yn mwynhau lletygarwch hael. Dyma amser adeiladu Caer Belan ym Morfa Dinlle a chaer Williamsburg sy'n dal yn y parc. Daeth Syr Thomas Wyn yn aelod seneddol dros Gaernarfon yn 1761, ac yn 1776 cafodd ei anrhydeddu fel Arglwydd Newborough. Diddorol yw deall mai teitl Gwyddelig oedd yr anrhydedd ac felly ni chafodd eistedd yn nhŷ'r Arglwyddi. Bu farw ei wraig yn ifanc, ac aeth Syr Thomas (Arglwydd bellach) i'r Eidal ac anwybyddu'r stad am amser. Yno priododd ferch ifanc iawn, o'r enw Maria Stella Petronilla. Ceir ei hanes yn ei llyfr *'The Memoirs of Maria Stella'* ac mae cofeb iddi yn eglwys Llandwrog. Pan ddaeth y cwpl yn ôl i Gymru, fe swynwyd y ferch ifanc gan y plasdy a'r tir, a dechreuwyd ysbaid lliwgar a bywiog yn hanes y stad. Ganwyd dau fab iddynt a bu un ohonynt yn gyfrifol am ddodrefnu'r plasdy yn foethus iawn, a chwalu tyddynod er mwyn ehangu'r parc a chodir saith milltir o wal o'i amgylch yn 1824.

Dinistrwyd y plasdy drwy dân yn 1836 gan adael *"a mere shell of lofty walls"* a chollwyd llawer o drysorau. Adeiladwyd y plasdy presennol yn 1851 ar gynllun Edward Haycock, pensaer o Amwythig. Bellach roedd ansawdd y cartref a'r teulu yn hollol Saesneg ond roedd y Arglwyddi canlynol yn garedig a hael i'w tenantiaid.

Daeth newid ar fyd a ffawd y plasdai mawr, drud i'w cadw, a gwerthwyd y stad yn 1948 a symudodd y seithfed Arglwydd Newborough i stad Rhug, Corwen lle mae'r teulu yn dal i ffermio a chynnal tir. Mae rhan helaeth o'r adeiladau a'r parc yn eiddo i Gyngor Gwynedd fel Coleg Meirion Dwyfor. Cyn bo hir fe welwn ail-gyfodi Glynllifon fel gwesty hyfryd. Efallai cawn fynd yno am ben wythnos!

Mrs Iola Edwards oedd llywydd y noson, Terry O'Neill oedd yn cyfeilio a Betti a Llwynwen oedd yng ngofal y lluniaeth pleserus.

## Eglwys Bethel, Heathfield Road, Lerpwl

Roedd hi'n ddydd Gweddi Chwiorydd y Byd ar y 3ydd o Fawrth ac aeth cynrychiolaeth o Chwiorydd Bethel i eglwys Elm Hall Drive. Trefnwyd rhaglen arbennig gan chwiorydd y Philipines, ac aelodau o Eglwysi Unedig Mossley Hill yn portreadu bywyd caled y chwiorydd a chyflwr y wlad honno. Braf oedd cael cyfle i sgwrsio ar y diwedd uwchben paned o de a theisen.

Ar y Sul cyntaf o'r mis cafwyd gwasanaeth Undebol Gŵyl Dewi o dan arweiniad ein gweinidog y Parchedig Ddr. D. Ben Rees gyda chyfraniad gan aelodau Bethel a Bethania. Rhoddwyd braslun i ni o gefndir ein nawddsant, er mai prin yw'r wybodaeth amdano, ond mae ei neges yr un mor addas i ni heddiw ag yr oedd yn y chweched ganrif; i ni gadw ein ffydd a'n cred a gwneud y pethau bychain er budd a bendith i eraill.

Aeth y Gymdeithas Lenyddol i'r pictiwrs ar nos Lun, Mawrth y 6ed ac yn ein derbyn yn y cyntedd 'pecyn o popcorn'. Sara a gyflwynodd y noson gan roi rhaglen i'r ffilm Gymraeg 'Hedd Wyn' ac addas oedd hyn gan y byddwn eleni yn dathlu can mlynedd ei farw. Ffilm yw am fywyd y bardd Hedd Wyn, fe'i scriptiwyd gan Alan Llwyd a Huw Garmon oedd y prif gymeriad. Cawn ddarluniau hyfryd yn y rhan gyntaf o ardal wledig o gwmpas Trawsfynydd a'r cartref yn Yr Ysgwrn, y plant ar yr aelwyd ac yn helpu ar y fferm. Yna ei fywyd drwy ei arddegau nwydus a'i ymdrechion barddol. Daeth pwyslais arno ef a'i gyfoedion i gyflwyno eu hunain i'r fyddin er i hyn fod yn gwbl groes i'r graen i'w natur. Dengys y ffilm gyferbyniaeth rhwng bywyd ei ardal wledig a'r golygfeydd o erchyllterau rhyfel ar ei waethaf yn ffosydd y Rhyfel Byd Cyntaf. Yma y bu farw a hynny tua bythefnos cyn yr Eisteddfod Genedlaethol ym Mhenbedw. Er iddo ennill y gadair nid eisteddodd arni, fe'i gorchuddiwyd â lliain du. Hedd Wyn, bardd y Gadair Ddu. Diolch Sara am roi cyfle i ni weld y ffilm, i'w mam Beryl am wneud teisennau gyda'r baned ar y diwedd ac i'w thad Dr. John am rwydd rediad y ffilm.

Ar Sul, Mawrth 12 cynhaliwyd cyfarfod blynyddol yr Eglwys. Mae hyn yn un o ofynion y Comisiwn Eusennol. Rhydd yn gyfle i'r aelodau dderbyn y wybodaeth am weithgareddau y flwyddyn flaenorol a chael cyfle ar ddiwedd y cyfarfod i fynegi barn ac i ofyn cwestiynau i'r swyddogion. Dr. Pat Williams gyflwynodd yr adroddiad ar waith yr eglwys a Dr. John Williams amlinelodd y wedd ariannol. Diolch iddynt am eu holl waith yn ystod y flwyddyn, a'u gofal yn sicrhau i lyfrau'r eglwys ymateb â'r gofyn, ac i Meirion Evans, Roderick Owen a Nan Hughes Parry am y defosiwn dechreuol.

Noson o weld lluniau o'r papur bro *Yr Angor* a ymddangosodd yn y flwyddyn

# LLONGYFARCHIADAU I FYFYRWYR GYM GYM LERPWL

***gan ein Gohebydd Arbennig***



***Canlyniad Eisteddfod Ryng-Golegol***

Mae'n braf cael llongyfarch Cymdeithas Gymraeg Fyfyrwyr Cymry Lerpwl am eu llwyddiant yn yr Eisteddfod Rhyng-golegol a gynhaliwyd ym Mhrifysgol Bangor ar ddechrau mis Mawrth. Dyma oedd y tro cyntaf i'r myfyrwyr cymeryd rhan yn yr Eisteddfod ac maent wedi gwneud cryn argraff. Daethant yn drydydd y tu ôl i Brifysgolion Bangor ac Aberystwyth ond o flaen Prifysgol Caerdydd. Roeddynt yn medru ymarfer yng Nghanolfan Cymry Lerpwl – dyma'r fath o weithgaredd hoffem weld mwy ohono yn y Ganolfan. Nid oedd yn syndod i'r gohebydd bod y myfyrwyr wedi llwyddo mor dda **!!! Rydym yn edrych ymlaen at glywed am eu llwyddiant yn yr Eisteddfod Ryng-Golegol y flwyddyn nesaf a gynhelir ym Mhrifysgol y Drindod Dewi Sant.

1998 hyd 2001 oedd yn y Gymdeithas Lenyddol ar yr ugeinfed o Fawrth gan Dr. John Williams wrth y llyw.

Roderick Owen oedd llywydd y noson a chyflwynodd Dr. John fel person cwbl ddibynnol yng ngwaith yr eglwys ym Methel ac mae ar hyd y blynyddoedd wedi cofnodi ein hanes ar gamera. Ni aiff un amgylchiad ymlaen heb John a'i gamera!

Gwelsom nifer helaeth iawn o luniau, dyma ddetholiad o rai ohonynt – Dathliadau Gŵyl Dewi, cydnabod gwasanaeth pobl fel R. Alun Roberts, Dr. J. Howell Hughes, Miss Elsie Parry yn gant oed, dathliad priodas arian Dr. Rees a Meinwen, rhai o ymweliadau mawrion ein cenedl, a chôr meibion Llanelli ynghyd â llawer o dripiau o Gymru i'r ddinas. Rhoddwyd plac ar gartref Saunders Lewis gan Bwyllgor Etifeddiaeth, Dr. Pat a chriw o bobl ifanc ar daith yn derbyn hyfforddiant tuag at Arholiadau Cymraeg Lefel A, ac yn olaf Rhys yn derbyn medal aur Duc Caeredin gan Jackie Charlton, y pêl-droediwr yn y gadeirlan.

Y syndod ar ddiwedd y noson oedd fod cymaint wedi cael ei gyflawni yn ein plith a'r ysgogydd yn ddigwestiwn yw Dr. D. Ben Rees. Mae ein dyled yn fawr iddo ac i Dr. John am roi ar gof a chadw hynt a helynt y Cymry ar droed y ganrif yn ninas Lerpwl a phob darlun yn dod a'i stori ei hun.

'Cyfoeswyr Pantycelyn fel emynwyr' oedd testun ein gweinidog yn y seiat nos Lun 1af mis Mawrth. Cawsom gefndir a chyfraniad Dafydd Jones o Gaio (1711-77) porthmon ydoedd o ran ei alwedigaeth ac yn berchennog ar ddwy fferm. Â'i yn rheolaidd i'r ffeiriau yn Llundain, ffon onnen yn ei law, dau gi defaid wrth ei sodla a gyrr o wartheg i ofalu amdanynt. Tra'n cerdded adref un nos Sul ac wedi colli ei ffordd clywodd ganu soniarus yn dod o gapel Troedrhiwdalar. Aeth i mewn ac aros, ac yno y clywodd yr alwad ar gân, a dod i adnabyddiaeth o'i Waredwr. Ni chafodd addysg ffurfiol erioed ar wahân i wersi gan ficer y plwyf, ond mae ei gyfieithiadau o emynau Isaac Watts yn dangos gallu a deallusrwydd mawr. Cyd-ddarllenwyd rhai o'i emynau hynny o *Caneuon Ffydd* a chanu rhai eraill.

Morgan Rhys (1716-79) oedd y llall o gyfoedion Pantycelyn a drafodwyd. Bu'n athro ysgol medrus gyda Gruffydd Jones, Llanddowror a theithiau o un ysgol i'r llall. Ysgrifennodd un ar ddeg o gyfrolau, ac yn fwy poblogaidd cyn yr Ail Ryfel Byd na'r un emynydd arall. Ceir llawer o'i emynau yntau yn *Caneuon Ffydd* a'r un sydd a mwyaf o ganu arni adeg y Nadolig yw 'Peraidd ganodd Sêr y bore'. Diolch i Dr. D. Ben Rees am baratoi eto ar ein cyfer a'n dysgu am rai a gyfrannodd gymaint i'n haddoliad a'n hetifeddiaeth.

Derbyniodd Mr. Ted Clement-Evans, Aigburth driniaeth lawfeddygol yn ysbyty Broadgreen – mae'n teimlo'n dda erbyn hyn ac yn codi allan. Dymunwn y gorau iddo a hefyd i Mrs Enid Pierce Hughes a ddaeth adref o'r Ysbyty Frenhinol.

Bu farw un o'n haelodau anwylaf Mr. David Morris, West Vale, Kirby, gŵr hynaws a siriol bob amser. Bu ei arwyl yng nghapel Waengoleugoed ar Mawrth 15 o dan ofal ein gweinidog. Cydymdeimlwn â Mr. R. Ifor Griffith ar golli ei chwaer yn Nhrawsfynydd. Anfonwn ein cofion cynnes at holl aelodau'r eglwys a Phasg dedwydd i chi i gyd.

**Ôl-nodiad y Golygydd:** Da clywed am lwyddiant Miss Hanah Thompson, Woolton wedi cael swydd bwysig yn Llundain a'i chefnder Dafydd Wrennel, Llanddoged (ac un a fu yn ein plith) am gwblhau traethawd MA Prifysgol Caerdydd a chael marciau uchel am ei ddarpariaeth. Y ddau yn ŵyr a wyres Nan Hughes Parry, a phlant Mrs Mair Thompson a Nia Wrennell. Llongyfarchiadau cywir o Bethel.

## Cystadleuaeth Rhai Bobl Bwysig

(Cyfrol 38, Rhif 11, Ebrill 2017, t.11)
Enillydd:
**Mrs Enfys Hughes, Brynteg, Môn**
*Dyma'r atebion:*
1. Lloyd George; 2. Harold Wilson;
3. Nigel Farage; 4. Gordon Brown;
5. Nicola Sturgeon.


# PEARSON COLLINSON

## *TREFNWYR ANGLADDAU LERPWL*

GWASANAETH EFFEITHIOL -
CAPELI PREIFAT, CEIR MODUR HARDD, ATEB NOS A DYDD

**Prif Swyddfa**
87-91 Allerton Road, Liverpool L18 2DD
Ffôn: 0151 722 1514. Ffacs: 0151 737 1997

**Swyddfa arall**
255 Speke Road, Liverpool L25 0NN
Ffôn: 0151 448 0808

National Association of Funeral Directors Est 1905

Os ydych ar ôl cysylltu gyda un o'r swyddfeydd am gael gair personol yna canolbwyntiwch ar 0151 722 1514

# CYMDEITHAS CYMRY LERPWL

Cyfarfod cyntaf mis Mawrth oedd noson boblogaidd yng nghartref Dr. Pat Williams i fwyta crempogau. Mwynhaodd pawb y danteithion a chawsom ddigon o amser i sgwrsio. Gwnaed elw tuag at Apêl Gŵyl Hedd Wyn.

Yn y cyfarfod nesaf daeth y Parch. Ddr .Athro D. Ben Rees atom i sôn am ddyn mawr Môn a'r dyn enwocaf a fu'n byw yng Nghaergybi sef yr Arglwydd Cledwyn o Benrhos. Mae Ben Rees yn ysgrifennu cofiant iddo ac yn gobeithio y caiff y gyfrol ei chyhoeddi yn yr haf cyn Eisteddfod Genedlaethol Môn. Ganwyd Cledwyn Hughes ar Fedi 14eg 1916 yn fab i'r Parch. H.D. Hughes a'i wraig Emily. Cyn iddo fynd i'r weinidogaeth a dod yn Weinidog ar Eglwys Disgwylfa, London Road, Caergybi roedd H.D. Hughes yn chwarelwr yn chwarel Dinorwig. Bu ei dad yn ddylanwad ar Cledwyn. Roedd H.D. Hughes yn ffrindiau mawr gyda theulu David Lloyd George a bu'n gefnogol i'w ferch Megan gael ei hethol yn Aelod Seneddol Môn yn 1929. Aeth Cledwyn i Brifysgol Aberystwyth i astudio'r gyfraith a sefydlodd gangen o'r blaid Ryddfrydol



***Cledwyn Hughes***

yno. Wedi graddio cafodd swydd gyda chwmni cyfreithwyr T. R. Evans Hughes & Co yng Nghaergybi. Cyfarfu â Jean Beatrice Hughes yn 1947 o Gapel Armenia, Caergybi a bu iddynt briodi yng Nghapel St. John Street, Caer yn 1949. Ond uchelgais Cledwyn oedd bod yn wleidydd ac felly penderfynodd adael y Blaid Ryddfrydol ac ymaelodi gyda'r Blaid Lafur. Ymgeisiodd i fod yn Aelod Seneddol dros Fôn yn erbyn Megan Lloyd George deirgwaith cyn llwyddo yn 1951 gyda mwyafrif o 595 pleidlais.



***Noson Crempoga yn Awelon***

Cafodd Cledwyn Hughes yrfa ddisglair fel gwleidydd.

Apwyntiwyd ef yn Weinidog yn Swyddfa'r Gymanwlad ac wedi etholiad 1966 fe oedd yr Ysgrifennydd Gwladol dros Gymru. Ef oedd yn gyfrifol am baratoadau yr arwisgo yng Nghaernarfon yn 1969. Nid oedd yn boblogaidd gyda'i rhai o'i gyd wleidyddion – efallai ei fod yn ormod o Gymro a chafodd ei symud i fod yn Weinidog dros Amaethyddiaeth. Symudodd i Dŷ'r Arglwyddi yn 1979 wedi ei ymddeoliad fel Aelod Seneddol ac ef a fu'n gyfrifol am berswadio'r Tŷ'r Arglwyddi i ddarlledu eu gweithgareddau. Etholwyd yr Arglwydd Cledwyn yn Arweinydd y Blaid Lafur yn Nhŷ'r Arglwyddi yn 1982 ac arhosodd yn y swydd nes iddo ymddeol yn 1992.Bu farw yn 84 oed ar Chwefror 22ain 2001. Dywed ei fab ei fod yn 'ŵr annwyl a dyn ffeind'. Edrychwn ymlaen i ddarllen y cofiant amdano.

Noson y llywydd oedd y noson nesaf ar Fawrth 21ain gyda Roderick Owen yn holi ei westai arbennig sef Olwen Foreman. Mae Olwen yn byw yn Lerpwl ers dwy flynedd ond roedd ganddi gysylltiad a'r ddinas cyn hyn. Mae cerflun o'i hen hen daid, Hugh Stowell Brown (1823-1886) a oedd yn pregethwr, gweinidog a diwygiwr cymdeithasol yn Lerpwl yn y pedwaredd ganrif a byntheg, i'w weld ar Stryd Gobaith gyferbyn a Thafarn y Ffilharmonic. Ganwyd Olwen ym Mhenuchaf, Caerwys. Mae'r tŷ wedi bod yn meddiant y teulu am bedwar cant o flynyddoedd. Roedd ei thad yn dod o Benclawdd, ger Abertawe a dyrchafodd i fod yn Athro ym Mhrifysgol Aberystwyth. Tad ei mam oedd Syr Herbert Lloyd Lewis. Bu'n aelod seneddol dros fwrdeisdrefi Fflint, 1892-1906; dros y sir, 1906-18; a thros Brifysgol Cymru,



***Olwen Foreman a Rod Owen***

1918-22 — sedd newydd a gafwyd i Gymru trwy ei ymdrechion ef. Roedd yn ffrind mawr i David Lloyd George a Thomas Ellis. Ei nain oedd y Fonesig Ruth Lewis a anwyd yn Lerpwl ac a wnaeth lawer o waith yn crwydro'r wlad i gasglu alawon gwerin ar y ffonogram. Aeth ei mam yn genhades i Lushai, India yn 24 mlwydd oed. Pan yn byw yn Aberystwyth roedd Olwen yn ddisgybl yn yr ysgol Gymraeg sef yr ysgol Gymraeg gyntaf yng Nghymru ond pob gwyliau roedd yn mynd i aros i Benuchaf a symudodd yno i fyw wedi marwolaeth ei nain. Yn 11 oed aeth Olwen yn ddisgybl i Ysgol Howells, Dinbych. Wedi priodi bu'n byw yn Llundain ac yna yng Nghaergrawnt. Roedd ei gŵr yn gweithio gyda'r tîm a ddatblygodd y cyfrifiadur cyntaf ac a enwyd ar ôl cyfaill mawr ei gŵr sef Clive Sinclair. Ganwyd iddi 4 o blant – dwy ferch a dau fab.Wedi marwolaeth ei gŵr symudodd i fyw i Langower am 10 mlynedd lle bu'n weithgar iawn yn y gymuned. Symudodd wedyn i Ynys Môn ar lan y Fenai cyn dod i Lerpwl i fod yn nes at un o'i

merched. Braf oedd cael clywed am ei bywyd diddorol a hanes ei theulu.

Daeth Dr. Owen Morris atom yng nghyfarfod olaf mis Mawrth i sôn am 'Hanes Iwerddon ac yn benodol hanes Arthur Joseph Griffith, sylfaenydd Sinn Féin. Dechreuodd diddordeb Dr. Morris



*Arthur Griffith*

yn hanes Iwerddon yn 1966 pan oedd yn Nulyn yn nathliadau pum deg mlynedd 'Gwrthryfel y Pasg'. Dyma'r adeg cafodd cofgolofn Nelson yn Nulyn ei fomio a'i falu gan Fyddin Weriniaethol Iwerddon. Yn y blynyddoedd wedyn bu yn Ngogledd a De Iwerddon sawl gwaith. Cyfarfu â Gerry Adams, Martin



***Alun Davies, Eryl Jones a Dr. Owen Morris***

McGuinness ac Ian Paisley. Wedyn soniodd am Arthur Joseph Griffith a anwyd yn Nulyn ar Fawrth 21, 1872 yn 61 Upper Dominick Street i rieni o dras Cymreig o Sir Fflint. Protestaniaid oedd y teulu. Ni chafodd Arthur Griffith gydnabyddiaeth deilwng am ei waith dros Iwerddon. Gadawodd yr ysgol yn 15 oed ac aeth yn brentis mewn argraffdy ble roedd ei dad yn gweithio. Yr oedd yn wael ei iechyd oherwydd y dicau Yn 1910 priododd Arthur a Maud Sheehan 15 mlynedd ar ôl dyweddio a ganwyd iddynt un mab ac un ferch. Roedd yn ddyn cydwybodol, yn ysgrifennu llawer, yn heddychwr a sylfaenodd gyda eraill y papur 'Gwyddel Unedig' ('United Irishman'). Credai y byddai Iwerddon yn wlad rydd rhyw ddydd ac roedd yn daer dros annibyniaeth economaidd i'r wlad. Unwyd sawl cymdeithas gyda daliadau gweriniaethol i ffurfio Sinn Féin ar ddechrau y ganrif ddiwethaf ac roedd Arthur Griffith yn flaenllaw yn y proses yma.Ymunodd cannoedd â phlaid Sinn Féin ac fe'i etholwyd Arthur yn Aelod Seneddol Dwyrain Cavan ym 1918 a sedd Gogledd Tyrone. Cafodd ei garcharu sawl gwaith am ei ddaliadau. Yn ystod etholiad Mai 1921 roedd Arthur Griffith yn y carchar ond er hynny enillodd sedd Fermanagh a Tyrone a sedd Dwyrain Cavan. Yn Awst 1921 cafodd yn benodi yn Weinidog dros Faterion Tramor yng Nghabinet y llywodraeth newydd. Yn 1921 Arthur Griffith oedd Cadeirydd y ddirprwyiaeth a aeth i Lundain i gyfarfod David Lloyd George ac arwyddo y cytundeb Eingl-Wyddelig. Fe oedd Llywydd Llywodraeth Gweriniaeth Iwerddon sef y Dáil Éireann o Ionawr 1922 nes iddo farw ym mis Awst o'r un flwyddyn yn 50 oed. Fe'i claddwyd yn Mynwent Glasnevin, Dulyn. Cawsom gan Dr. Owen Morris beth o hanes cymleth Iwerddon.

## Rhifyn Olaf Cyfrol 38 o'r Angor

**Sylwer mai hwn yw rhifyn olaf Cyfrol 38 (Mehefin 2016 i Mai 2017). Bydd Cyfrol 39 yn dechrau gyda rhifyn Mehefin. A wnaiff ein darllenwyr anfon fel arfer eu cyfraniadau a'ch cefnogaeth i'r Angor fel arfer i'r Trysorydd.**
***Diolch***
***Swyddogion y papur bro.***

## Ble yn y byd?

Erbyn hyn mae tua 120 o Eisteddfodau lleol yn cael eu cynnal yng Nghymru. Yn ogystal, mae Eisteddfod Genedlaethol Cymru, Eisteddfodau Cylch, Sir a Chenedlaethol yr Urdd, Eisteddfodau Sir a Chenedlaethol y Ffermwyr Ifanc, Eisteddfod Ryngwladol Llangollen ac hefyd yr Wyl Cerdd Dant - ond ble arall yn y byd mae yna draddodiad eisteddfodol? Wrth chwilota drwy amryw wefannau, diddorol yw darganfod yr holl wledydd lle cynhelir eisteddfodau erbyn hyn! Mae pawb o gefndir eisteddfodol yn gwybod am y nifer sy'n cael eu cynnal yn y Wladfa (Eisteddfod Trevelin, Eisteddfod Chubut yn Nhrelew, Eisteddfod Mimosa ym Mhorth Madryn, ac Eisteddfod yr Andes), Awstralia, Seland Newydd a'r Unol Daleithiau.

Cynhelir gwyliau tebyg yng Nghernyw (Esethvos Kemow), Yr Alban (Scottish Gaelic Mod), Llydaw (Breton Kan ar Bobl) ac hyd yn oed ar un o Ynysoedd y Sianel, Jersey. OND ble arall dwedwch?

**Beth am ail gyfodi Eisteddfod Glannau Mersi yn 2018 a'i chynnal ym Mhenbedw?**

## Cystadleuaeth Mis Mai

**(anfoner yr atebion i'r Golygydd cyn 1 Mai)**

**CANEUON CYMREIG**

1. **"Gwn, er maent"** yn siarad am ei diniweidrwydd – 'mae llawer o sôn amdani' (6-4)
2. Tôn sy'n **"barod tua"** y diwedd i ddweud yn bendant fod cariad 'fel y dur' (3 2 3)
3. **"Da yr hyn, os"** ddawn tôn i arddangos gwir brydferthwch (2.3.1.3)
4. **"Achwyn fel y"** gwna pobl cyn clywed a gwrando 'ar ei beraidd lais' (1-8)
5. **"Ag i ddangos, ble'r"** oedd 'Maes y Gad' Hwn 'mil gwell yn marw'n fachgen dewr na byw yn fachgen llwfr (1-4-8)

# GWEITHGAREDDAU GŴYL DDEWI 2017 YM MANCEINION


**CYNGERDD BLYNYDDOL:** Ar 25ain o Chwefror cawsom ein cyngerdd blynyddol yn y Royal Northern College of Music. Â'r Neuadd yn gyfforddus lawn o Gymry ac o eraill sy'n mwynhau gwrando ar gerddoriaeth, ni'm siomwyd. Yn hytrach, dyma gyngerdd i'w gofio. Roedd dau gôr wedi'u gwahodd: Côr meibion Caernarfon dan arweiniad Delyth Humphries a Chôr Rhuthun a'u harweinydd Robat Arwyn. Hyfryd oedd gwrando ar eu rhaglen amrywiol - o'r hen ffefrynau i ddarnau mwy modern a'r cyfan yn toddi i mewn mor effeithiol. Ac yna yr artistiaid ieuainc – fe'n cyfareddwyd gan John Ieuan Jones, baritôn ifanc o Landrillo-yn-Rhos, Iwan Owen, pianydd o Ynys Môn a Chloe Roberts, o Greenfield, Sir Fflint, yn chwarae'r delyn. Heb os nac onibai, mae dyfodol disglair iawn i'r tri ohonynt a dymunwn yn dda iddynt yn eu gyrfaoedd. Dyma un o'r cyngherddau gorau eleni! Mae pob cyngerdd yn y gorffennol wedi cyrraedd safon uchel ond rywfodd 'roedd rhywbeth arbennig iawn i'n swyno y tro hwn. A sut meddech, mae cyngerdd mor llwyddiannus yn cymeryd lle? Nid heb lawer o waith paratoi a gweld fod popeth yn rhedeg yn rhwydd. Ac i Elwyn Evans mae'r diolch, am drefnu noson mor effeithiol a chofiadwy, eleni ac yn y gorffennol. Gwerthfawrogwn ei waith a'i baratoadau yn fawr. Hebddo, ni byddem yn dathlu gŵyl ein nawddsant yn y fath fodd.



*Iwan Owen*



*Y ddau arweinydd a'r cyfeilyddion: Mair Jones, Robat Arwyn, Delyth Humphreys a Mona Meirion Richards*



*Y tri unawdydd: John Ieuan Jones, Chloe Roberts ac Iwan Owen*

**CINIO GŴYL DDEWI:** Yn Noddfa Oaker Avenue y bu'r dathliad nesaf. Nos Sadwrn, Mawrth 4ydd, daeth aelodau Noddfa Oaker Avenue, Altrincham a rhai ffrindiau at ei gilydd i fwynhau gwledd o 'hot-pot' a theisen afal yn ôl yr arfer. 'Roedd y byrddau yn werth eu gweld – y cennin pedr melyn yn goleuo'r ystafell ac yn arwydd fod y gwanwyn ar y gorwel. Wedi'r pryd blasus, llwnc destun i Ddewi a galw'r siroedd, ein pleser oedd cael croesawu y gŵr gwadd eleni, Mr Cefyn Burgess yn wreiddiol o Fethesda ond yn byw yn Rhuthun erbyn hyn. Mae llawer ohonom yn cofio Cefyn yn fyfyriwr ym Manceinion ac yn mynychu capel Oaker Avenue yn ystod ei amser yma.



*Y cantorion Trefor Davies a Glynn Morris. (John Garrett y troi y tudalenau)*



*Y gŵr gwadd, Mr Cefyn Burgess, rhwng Mrs Eflyn Evans a'r Barch Eleri Edwards*



*Cefyn yn dangos esiampl o'i waith ar ôl bod yn y Wladfa.*

Ar ôl graddio, bu Cefyn yn gweithio yn Llundain ac ym melin Trefriw. Mae wedi bod yn y wladfa ym Mhatagonia lawer gwaith a diddorol oedd gwrando ar ei hanesion yno ac fel y'i hysbrydolwyd gan elfennau natur a'u defnyddio'n fel y patrymau i'r cwrlidau mae'n ei nyddu. Diolchwn yn fawr i Cefyn am ddod atom - da oedd cael ei gwmni unwaith eto. Fel arfer, dilynwyd yr anerchiad gan gyngerdd amrywiol o gerddoriaeth, adroddiadau, caneuon a chyd ganu addas i'r amgylchiad. Noson arall hynod o lwyddiannus i gofio dydd ein nawddsant. Mae'n diolch i Mrs Eflyn Evans am drefnu'r adloniant unwaith eto eleni.

**PREGETH GŴYL DDEWI:** Digwyddiad arall adeg yma o'r flwyddyn yw'r bregeth Gŵyl Ddewi ac roedd yn bleser i groesawu atom unwaith eto y Parch Nesta Davies ar Fawrth y 5ed. Felly, ar y Sul cyntaf o'r Grawys, rhoddodd Nesta agwedd arall o fywyd Dewi inni, sef ei ymprydio. Roedd ei chyflwyniad yn ddiddorol ac yn heriol i ni. Diolch yn fawr am wasanaeth arbennig Nesta.

**DATHLU DYDD GWEDDI CHWIORYDD Y BYD:** Mae merched Manceinion yn hoff o ddathlu Dydd Gwener cyntaf mis Mawrth gyda chwiorydd y byd. Er nad ydym yn niferus, cawn deimlad o berthyn i Eglwys Fawr Dduw ar hyd a lled y byd trwy ddefnyddio'r oedfa yn Gymraeg. Eleni merched y Philipinas oedd wedi paratoi'r gwasanaeth ac roedd yn ddiddorol a theimladwy iawn. Mewn cylch cartrefol roedd yna amser inni ystyried a gweddïo ar y thema pwysig o degwch Duw, hynny ydi ffordd Dduw o edrych ar bethau sydd yn gallu bod braidd yn wahanol i'n ffordd ni o weld pethau.

**YMWELIAD ARBENNIG:** Sul arall ym mis Mawrth, cawsom ymweliad gan y Parch Ddr Sanghuma o Gaerdydd i bregethu ym Manceinion. Clywsom ganddo fel oedd ysbyty newydd wedi ei hadeiladu yn ei wlad yng Ngogledd Ddwyrain yr India, gydag enw John Williams arni, Cymro oedd wedi bod yn genhadwr yno yn ystod y ganrif ddiwethaf, Roedd John Williams yn dad i un oedd wedi bod yn flaenor yn Altrincham am gyfnod hir ond bu farw ychydig o flynyddoedd yn ôl sef Dr Fraser Williams. Daeth un o feibion Fraser, Adrian, i'r gwasanaeth a chyfarfod y pregethwr a rhai o'i deulu, ac roedd yn gyfarfod hanesyddol a llawen gyda diolch diffuant gan Sanghuma i'r Cymry am ddod â'r Efengyl i'w wlad ac am y perthynas parhaol sy'n dal mor bwysig i'r ddwy genedl. Fe fydd pawb yn cofio ei destun allan o Lythyr Paul i'r Rhufeiniaid: 12:12 'Llawenhewch mewn gobaith. Safwch yn gadarn dan orthrymder. Daliwch ati i weddïo.'



*Parch Sanghuma ac Eleri yn y pulpud a'r teulu yn sefyll yn y sêt fawr - Mawrth 2017*



*Y gweinidog Parch Dr. Sanghuma, Mrs Burton nesaf ato, cyfaill arall sy'n briod â Chymro, Mrs Rini Sanghuma a'r ddwy ferch Ruth a Sarah*

**COLLED MAWR I'N CAPELI:** Gyda thristwch a syndod y derbyniwyd y newydd am farwolaeth Mr Clifford Evans, Bury. Yn hannu o dref Caernarfon, daeth Cliff yma i ardal Manceinion i weithio flynyddoedd maith yn ôl. Bu'n flaenor diwyd yng nghapeli Cheetham Hill, Monton ac yna yn Noddfa Oaker Avenue. Byddai'n trafaelio'n ddi-feth ar brynhawn Sul i fynychu'r gwasanaeth – taith o hanner can milltir i gyd. Gŵr tawel, diymhongar oedd Cliff ond ni fethodd â chyflawni yr hyn a ofynnid iddo erioed. Bu amryw ohonom yn siarad ag ef ar y ffôn ychydig ddyddiau cyn ei farwolaeth. Anodd yw dygymod iddo gael ei alw adref mor ddisymwth. Ond mae'r atgofion amdano yn llu ac yn felys. Gwelwn ei golli'n fawr – da was, da a ffyddlon.

Ychydig ddyddiau yn ddiweddarach bu farw ei wraig Edith. Roedd wedi bod mewn cartref ers peth amser a Cliff yn ymweld â hi yn ddyddiol. 'Roedd cyflwr Edith wedi gwaethygu yn ystod yr wythnosau diwethaf a bu farw ar Chwefror 25ain. Byddem yn cael ei chwmni yn y gwasanaeth ar aml i brynhawn Sul ac yn falch o'i chroesawu. Estynnwn ein cydymdeimlad llwyraf i Arwel, Nia, Andrea a'u teuluoedd yn eu galar. Bu'r angladd ar Fawrth 14eg yn Eglwys Sant Stephen, Bury, gyda'r Parch Eleri Edwards a'r Parch Steven Openshaw yn gwasanaethu. Daeth cynulleidfa deilwng ynghyd i dalu'r deyrnged olaf iddynt.

## Cydnabod caredigrwydd

Hoffwn ddiolch i fy holl gyfeillion yng nghapel Bethel ac yn y gymdeithas Gymraeg sydd wedi anfon cardiau, neges e-bost ac wedi ffonio i ddymuno'n ddai mi yn ystod fy arhosiad yn yr ysbyty ac ar ôl dychwelyd adref i Aigburth

***Ted Clement-Evans***

## CADAIR GŴYL HEDD WYN PENBEDW 2017

Daeth y cyfle gan mlynedd yn ddiweddarach i ddiolch a chofio Eisteddfod y Gadair Ddu a champ anghyffredin y milwr-fugail o fardd o Drawsfynydd, Hedd Wyn a luniodd awdl ar yr Arwr a ddaeth a chlod a bri i'w ddawn a'i fedr. Gwnaed Cadair unigryw hardd ei gwneuthuriad, a rhoddedig gan Gymdeithas Hedd Wyn Flanders er cof amdano i'r bardd buddugol eleni. Teitl y Gerdd neu'r Cerddi yw Hedd Wyn. Gofynnwyd i Archdderwydd Cymru i lywyddu'r ddefod ym Mhenbedw am 2 o'r gloch pnawn Sadwrn 9 Medi 2017 a gwahoddir y Prifardd Sion Aled,Wrecsam a Dr Robin Gwyndaf, Caerdydd yn Feirniad y Gystadleuaeth. Gofynnir felly am Gerdd neu Gerddi, ddim mwy na chan llinell ar Fywyd a Gwaith Hedd Wyn a dylid anfon dau gopi mor fuan ag y bo modd, ond man pellaf erbyn bore Sadwrn 19 Gorffennaf 2017 trwy'r post i 32 Garth Drive, Allerton, Lerpwl / Liverpool L18 6HW neu dros y we i *dbenrees@gmail.com* neu *benatgarthdrive@talktalk.net* . Edrychwn ymlaen i drysori y gerdd neu'r cerddi gorau, ac os ydych am ragor o wybodaeth gohebwch â chysyllwch gyda Cymdeithas Etifeddiaeth Cymry Glannau Mersi.

**CRONFA ARBENNIG GŴYL HEDD WYN 2017**
**Cymdeithas Etifeddiaeth Cymry Glannau Mersi**
**Cronfa Gŵyl i gofio**

**Eisteddfod y Gadair Ddu Penbedw a champ y bardd filwr a gollodd ei fywyd yn Pilkem Ridge (31-7-1917) sef Ellis Humphrey Evans (Hedd Wyn) o Drawsfynydd a enillodd y Gadair, ac yr ydym am fewnforio carreg o'r India bell i'w goffau ar waelod y Gofeb a gaiff ei lanhau.**
**Cynhelir yr Ŵyl ar Sadwrn, 9 Medi a Sul, 10 Medi 2017 ym Mhenbedw.**

**Rhestr 5 (hyd 31 Mawrth 2017)**

–Ymateb gwych gan y canlynol

1) Mrs Gwen Rigby, Mossley Hill, Lerpwl .................................... £20
2) Dr. Pat Williams, Allerton, Lerpwl (aelod gweithgar o'r Pwyllgor Gwaith Cymdeithas Etifeddiaeth) ............................... £50
3) Miss Carys Williams, Llundain a Lerpwl .................................. £25
4) Dr. Lowri Williams, Penarth, Caerdydd ..................................... £25
5) Mrs Devida Broadbent, Roby, Huyton ....................................... £20
6) Mrs Nan Hughes Parry, Woolton (aelod gwerthfawr o Bwyllgor Gwaith Cymdeithas Etifeddiaeth) .............................. £50
7) Parch T. R. Wright a Mrs Catherine Wright, Wrecsam .............. £25
8) John a Jennifer Williams, Rainhill, L35 (a Phenbedw gynt) ....... £40
9) Haelioni mynychwyr ffilm Hedd Wyn yn Lerpwl (6 Mawrth 2017) trwy law y gyflwynwraig Ms Sara Williams, Lerpwl ..... £100
10) Haelioni mynychwyr Noson y Crempog yng nghartref Dr. Pat Williams a drefnwyd gan Gymdeithas Cymry Lerpwl ar 7 Mawrth 2017 ........................................................ £80
11) Ben Hughes, Childwall, Lerpwl ............................................... £20
12) Miss Mair Powell, Marlfield Road, West Derby ...................... £50
13) Idris a Mair Roberts, Mayville Road, Allerton ........................ £50
14) Gareth, Alun, Dewi a Elin Roberts, Mayville Road, Allerton ... £40
15) Clwb Rotari Dinas Lerpwl (Rotary Club of City of Liverpool) £50
16) Elwyn Jones, Nant Peris, Gwynedd ......................................... £20
17) Mrs Sarah E. Davies, Trefebin, Cilgwri ................................... £25
18) Terry a Phyllis O'Neill, Oxton, Cheshire ................................. £25
19) Cymdeithas Cymry Birkenhead (trwy law y Trysorydd Phyllis O'Neill) ...................................................................... £200
20) Keith Houseley (aelod o Glwb Rotari Dinas Lerpwl) .............. £10
21) Dr. Vanessa J. Martlew (aelod o Glwb Rotari Dinas Lerpwl) ... £10
22) Miss Carys Jones, Wavertree, Lerpwl ...................................... £25
23) Cymrodyr Catrawd Frenhinol Cymreig *Royal Welsh Regiment Comrades Association* .................... £1,000
24) Mrs Edna Roberts a Mr. Trefor Roberts, Trefebin, (Bebington) .............................................................................. £25

**Cyfanswm ................................. £1,995.00**


**Rhestr Haelioni**

**Rhestr 1 (hyd 31 Hydref 2016) .................................. £715.00**
**Rhestr 2 (hyd 31 Rhagfyr 2016) ................................ £540.00**
**Rhestr 3 (hyd 31 Ionawr 2017) .................................. £443.00**
**Rhestr 4 (hyd 28 Chwefror 2017) .............................. £850.00**
**Rhestr 5 (hyd 31 Mawrth 2017) .............................. £1,995.00**
**Cyfanswm ........................................... £4,443.00**

Cawsom fis da, y gorau eto, ac yr ydym yn sicr o gyrraedd y nod er fod y costau yn cynyddu ac yn uchel. Mae arnom angen o leiaf dwy fil o bunnoedd arall y misoedd nesaf o leiaf cyn Medi 2017.

**Ceir y chweched rhestr yn rhifyn nesaf o'r *Angor* a dylid anfon y cyfraniadau i'r Cadeirydd: Dr. D. Ben Rees, 32 Garth Drive, Allerton, Lerpwl, Liverpool L18 6HW pan mae'n gyfleus. Y sieciau i'w llenwi i 'Gymdeithas Etifeddiaeth Cymry Glannau Mersi' neu 'Merseyside Welsh Heritage Society'.**
**Diolch am eich caredigrwydd, cydweithrediad a'ch cefnogaeth calonogol darllenwyr Yr Angor.**

# Clifford ac Edith Evans



Bachgen o Gaernarfon oedd Clifford Evans, yr hynaf o chwech o blant, ac yn aelod yng nghapel Ebeneser gyda'r Wesleaid. Cafodd ei addysg yn ysgolion y dre, aeth i'r Ysgol Ramadeg (Ysgol Syr Hugh Owen yn awr) ac wedi amser yn y fyddin daeth i weithio fel draftsman yng nghwmni A.V.Roe yn Chadderton, rhwng Manceinion ac Oldham. Dros y blynyddoedd, tra bod AVRO yn dod yn rhan o gwmni British Aerospace, gweithiodd Clifford i fyny i fod yn arolygwr, yn teithio o gwmpas y gwahanol weithfeydd oedd yn perthyn i British Aerospace ar draws y wlad. Dyma dyst o'r gwaith cywrain a'r gonestrwydd cydwybodol oedd mor nodweddiadol o'i gymeriad.

Fel llawer i Gymry ifanc a ddaethant i Fanceinion yn y pumdegau, ymunodd Clifford ym mywyd Cymdeithas y Ddraig Goch (neu'r 'Clwb' fel y gelwid) ac yno cafodd gyfle i gymdeithasu ag eraill o alltudion yr hen wlad, i ddilyn pêl droed neu ymuno a grwp dawnsio gwerin. Yno y cyfarfu a Mair, merch ifanc o Glyn Ceiriog, bu iddynt briodi yn 1957 ac fe gawsant ddau o blant, Arwel a Nia.

Bu'r teulu yn aelodau o gapel Cymraeg Heywood Street nes ym 1976, drwy uniad gyda chapel Pendleton, daeth eglwys newydd Cheetham i fodolaeth a'r Parch. Richard J. Evans yn weinidog arni. Etholwyd Clifford yn flaenor ym 1982, daeth yn Ysgrifennydd a chyn bo hir yn Drysorydd y capel hefyd.

Colled drom oedd marwolaeth Mair yn 1987 a hithau ddim ond 58 oed, ond fe gariodd Clifford ymlaen yn ei ffordd ddistaw ddigwyno ei hun. Ymhen amser daeth yn ffrindiau ac Edith, hithau wedi colli ei gŵr, a bu i'r ddau briodi a chael ail afael ar hapusrwydd yng nghwmni eu gilydd.

Wrth i nifer aelodau y capeli Cymraeg yng ngogledd Manceinion leihau, cau ac uno oedd yr hanes, ac ar ysgwyddau Clifford y disgynnodd y baich gweinyddol. Yn gyntaf eglwys Bolton yn uno hefo Cheetham, wedyn Cheetham yn uno hefo Oaker Avenue, y ddau ddigwyddiad yn golygu gwerthu yr adeilad a'i gynnwys. Dim ond yn ddiweddar yr wyf wedi cael golwg ar y nodiadau manwl a gadwodd Clifford o'r symudiadau yma ac yn rhyfeddu pa mor drefnus fod popeth wedi ei gofnodi. Y cwbl yn wrthrych o'r gofal a'r cywirdeb yn ei waith beunyddiol mae'n sicr. Dywedodd wrthyf un tro ei fod yn cyfrif ei hun yn ddipyn o arbenigwr ar gau capeli!

Tra bu Henaduriaeth Manchester yn bod, bu Clifford yn Llywydd ym 1986 ac ym 1997, ac am y ddeng mlynedd diwethaf bu yn flaenor yn Noddfa Oaker Avenue, yn gofalu am y Cyhoeddiadau. Byddai Edith ac yntau yn selog yn y gwasanaeth ar brynhawn Sul er fod presenoldeb yn golygu taith gron o hanner can milltir iddynt bob tro. Os oedd Sul ganddom heb bregethwr, byddai Clifford yn barod bob amser i baratoi gwasanaeth ac yn gwneud hynny gydag arddeliad. Mewn cyfarfodydd, un pwyllog oedd Clifford, yn ofalus gyda'i eiriau ac yn hollol siwr o'i bethau. Byddwn yn gweld ei golli yn fawr.

Ers i Edith gael ei chymeryd yn wael dros ddwy flynedd yn ôl, anodd oedd i Cliff deithio i'r cyfarfodydd. Mawr oedd ei ofal amdani, gan ymweld â hi yn ddyddiol yn y cartref yn Bury. Wrth i gyflwr Edith waethygu, yr oedd yn amlwg mai ychydig o amser oedd iddi yn y byd hwn a sioc o'r mwyaf oedd y newydd fod Clifford wedi mynd o'i blaen. Cafwyd gwasanaeth angladd y ddau gyda'i gilydd ar ddydd Mawrth, 14fed o Fawrth 2017 yn eglwys St Stephen, Bury o dan arweiniad y Barch Eleri Edwards. Aethpwyd a Clifford i'r Amlosgfa yn Radcliffe ac Edith i'r fynwent yn Bury. Coffa da am y ddau ohonynt.

***Elwyn Evans***

# CYFARFOD CENEDLAETHOL PAPURAU BRO CYMRU *gan Dr. John G. Williams (Cadeirydd Yr Angor)*

Roedd yn bleser cael cynrychioli 'Yr Angor' yng nghyfarfod blynyddol Papurau Bro Cymru a gynhaliwyd yn Llety'r Parc, Aberystwyth. Roedd dros 50 o bobl yn bresennol yn cynrychioli dros 34 o bapurau bro. Roedd amrywiaeth o bynciau yn cael eu trafod yn ystod y cyfarfod gan gynnwys cyllid y papurau, effaith datblygiadau technoleg digidol a rhannu hefyd brofiadau da a drwg. Roeddem i gyd yn ddiolchgar i Megan Jones, Cadeirydd 'Yr Angor ' (Aberystwyth) am drefnu a chadeirio'r cyfarfod a noddwyd gan Lywodraeth Cymru.



*Cinio yn y Neuadd sydd yn edrych allan am bentref Llanbadarn Fawr*



*Megan Jones (Y Cadeirydd) a bwndel o bapurau bro*

# NOSON FFILM HEDD WYN

Y mae gobaith da cael rhaglen wych ym mis Medi (9 a 10) ym Mhenbedw ond fel rhagflas o hynny cawsom noson gofiadwy ar 6 Mawrth yng nghanolfan y Cymry, Penny Lane i ddangos ffilm ar Hedd Wyn. Trefnwyd y cyfan gan Ms Sara Williams ac yr oedd hi fel sinema gan y rhoddwyd rhodd i bob un i gnoi cil yn ystod y ddwy awr am fywyd y milwr o Drawsfynydd.

Gwnaed swm sylweddol tuag at y Gronfa (gweler tudalen 11)



*Sara Williams, yn cyflwyno'r noson*




*Kath Norton yn arddangos y rhodd a ddaeth o ffordd Gwydrin*



*Ymunodd aelodau o Ddosbarth y Dysgwyr gyda selogion Cymdeithas Lenyddol Bethel.*

**Ariennir Yr Angor yn rhannol gan Lywodraeth Cymru**

CYMRAEG

*Cyhoeddwyd gan Bwyllgor yr Angor, Heathfield Road, Lerpwl 15.
Cysodwyd ac argraffwyd gan Aeron Jones, Ty'n y Cefn, Llanuwchllyn
07729 960484*